Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-EM-0403-20

David Rees AM
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddEAAL@assembly.wales

3 Mawrth 2020

Annwyl Dai

Cytundebau rhyngwladol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 13 Ionawr a 10 Chwefror 2020

Diolch am eich llythyrau dyddiedig 21 Ionawr a 27 Chwefror ynglŷn â'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (y Pwyllgor) yn craffu ar y canlynol:

● y cytundeb ar gyfer sefydlu cysylltiadau rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Libanus;

● y cytundeb ar gyfer Cydweithredu a Phartneriaeth Strategol rhwng Teyrnas Unedig Prydain fawr a Gogledd Iwerddon a Georgia;

● y cytundeb ar gyfer sefydlu cysylltiadau rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Tiwnisia.

● y cytundeb ar gyfer sefydlu cysylltiadau rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Theyrnas Moroco.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

● y cytundeb ar gyfer sefydlu cysylltiadau rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Theyrnas Gwlad yr Iorddonen.

● y cytundeb ar gyfer sefydlu cysylltiadau rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Kosovo;

● y Cytundeb Partneriaeth a Chydweithredu rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Uzbekistan.

Cyn ateb eich cwestiynau penodol, hoffwn i roi rhywfaint o gyd-destun ynghylch y swyddogaeth polisi masnach o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'r swyddogaeth bellach yn cynnwys 14 o bobl sydd wedi bod wrthi'n datblygu eu harbenigedd yn gyflym mewn maes nad yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ynddo o'r blaen. Fy mlaenoriaeth yw defnyddio'r adnodd cyfyngedig hwn i ganolbwyntio ar y mater taer o asesu effaith y cytundebau masnach newydd ar economi Cymru.

Rydym yn defnyddio dull systematig iawn sy'n rhoi blaenoriaeth i'n hadnoddau ni yn unol â'r marchnadoedd sy'n bwysicaf inni. Rydym wedi rhoi blaenoriaeth i'n berthynas â'r UE yn y dyfodol, sy'n cyfrif am 61% o'r nwyddau rydym yn eu hallforio, ac wedyn UDA sy'n cyfrif am 15% (yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym fis Medi 2019). Y tu hwnt i hynny rydyn wedi rhoi blaenoriaeth i ganolbwyntio ar y gwledydd hynny y mae Llywodraeth y DU wedi dweud y byddant yn rhoi blaenoriaeth iddynt wrth negodi cytundebau masnach rydd newydd – sef Siapan, Awstralia a Seland Newydd.

Nawr trown ni at y tri chytundeb a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 13 Ionawr a'r pedwar cytundeb a ystyriwyd ar 19 Chwefror. Fel y gwyddoch, mae'r rhain yn rhan o ymarfer technegol Llywodraeth y DU i barhau â chymaint o'r Cytundebau Masnach Rydd â'r UE sydd eisoes yn bodoli ag y bo modd – enw'r ymarfer hwn yw'r rhaglen Parhad Cytundebau Masnach. Yn ôl ein hasesiad nid yw'r saith gwlad sy'n cael eu hystyried yn cyfrif ond am 0.2% o holl fasnachu nwyddau Cymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben fis Medi 2019.

I ateb eich cwestiynau penodol:

1. Gallaf gadarnhau bod fy swyddogion wedi parhau i gysylltu'n rheolaidd â'r Adran Masnach Ryngwladol mewn perthynas â'r rhaglen Parhad Cytundebau Masnach. Ni chawsant ein cynnwys yn y trafodaethau mewn perthynas â'r un o'r saith cytundeb hyn, ond cawsant ein hysbysu am gynnwys y cytundebau cyn iddynt gael eu llofnodi. Mae fy nisgwyliadau mewn perthynas â'r rhan y byddwn ni'n ei chwarae yn y trafodaethau ynghylch y rhaglen Parhad Cytundebau Masnach yn dibynnu ar ba wledydd y mae'r Adran Masnach Ryngwladol yn eu cynnwys yn y rhaglen Parhad Cytundebau Masnach wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd Canada yn ailymuno â'r trafodaethau. Pe bai hyn yn digwydd, byddwn i'n disgwyl inni gymryd rhan ar yr un lefel ag yr ydym ar hyn o bryd mewn perthynas â'r gwledydd â blaenoriaeth, yn hytrach a'r rhaglen Parhad Cytundebau Masnach fel yr oedd.

2. Mewn perthynas ag asesiad o'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhagor o fasnach rydd â Libanus ar gyfer cynnyrch amaethyddiaeth a physgodfeydd, gallaf gadarnhau nad yw fy swyddogion wedi cynnal asesiad trwyadl. Roedd hwn yn benderfyniad bwriadol ar sail y ffaith nad oes llawer o fasnachu â Libanus mewn perthynas ag amaethyddiaeth a physgodfeydd ar hyn o bryd – mae data'n dangos bod y sector Bwyd ac Anifeiliaid Byw yn cyfrif am 0.01% o holl fasnachu nwyddau Cymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben fis Medi 2019.

Yn Gywir

Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language